Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 12fed Chwefror 2018 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Cadeirydd Eleri Puw, Is Gadeirydd Elwyn Evans, H.E. Thompson, Gareth Evans, Steve Lewis, Robert Jones, Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Un o'r cyhoedd

Ymddiheuriad: Wendy Whitby,(Cyfarfod arall)

Datgan Diddordeb: Clerc / gadael ystafell Rhif12

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. Yr oedd ein meddyliau efo Cyng. Whitby ar ol colli ei gwr..

1. Derbyniwyd cofnodion Ionawr a llofnodwyd gan y Cadeirydd
2. Cae Chwarae: Derbyniodd y Clerc pris am tacluso y sietyn yn ol, ac ar ol trafod efo Cynghorwyr, yr oedd y gwaith wedi ei wneud a phasiwyd talu Seans Lawns.
3. Mynwentydd: Pasiwyd i dalu Arfon Owen am ail agor bedd. Trafodwyd amser a dyddiad i gyfarfod ar safle Eglwys Llan i drafod gosod posteri.
4. Llwybrau: Derbyniwyd ad daliad llwybrau sef £300 ac hefyd penderfynwyd i gario ymlaen efo'r gwasanaeth yma. Llwybyr Maesymeillion – derbynwyd ateb gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cynnig y llwybyr am £1 a thalu ein costau cyfreithiol.
5. Cyng Gwynedd: Dim Adroddiad
6. Cyngor Gwynedd: Pasiwyd i bwyso ar yr Adran Briffyrdd am sylw i'r canlynol :-Dwr yn sefyll yn ymyl Tyn y Bryn, Nantmyniawyd angen clirio dail, Staer Dywyll, coed angen eu clirio a sylw i'r culfert, Bin Halen Ty Mawr, bin halen Rhiw Cwrt. Rhiw gwaith a Tanycoed, holi am cyfarfod ar y safle yma.
7. Un Llais Cymru: Cyfarfod Ardal 20/02/18. Goryrru – ni chafwyd ateb cadarn. Trafodwyd y gwahanol arwyddion a pasiwyd holi i'r Heddwas Meirion Jones i roi adroddiad.
8. Sedd Wâg: Dim ymateb, felly rhoi arwydd i ddangos ein bod yn mynd i cyfethol.
9. Pasiwyd dalu i'r archwiliwr mewnol, Mr John Roberts, a gan ei fod yn gorffen efo'r gwaith yma pasiwyd i ddanfon air o ddiolch iddo am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd.
10. Apêl am arian: Derbyniwyd dau apêl, sef Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro a Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Trafod y ddau – y ddau yn haeddu ein cefnogaeth.
11. Golau ger Minffordd: Pasiwyd y byddem yn trio golau solar syml.
12. Cyflog Clerc: Trafodwyd cyflog blynyddol y Clerc a phasiwyd godi i £1,064.76, gyda £100 tuag at gostau swyddfa/cyfrifiadur.
13. Codwyd dau pryder gan Cyng Thompson a Cyng Evans – pryder ffordd yn rhoi ger yr Hen Swyddfa Post a pedwar damwain yn yr un man ers Mis Tachwedd – rhwng Penybont a top Rhiw Maesypandy.
14. Negesuon trwy e byst: (a) Cadarnhau dileu ffioedd claddu plant dan deunaw oed. (b) Trefniadau Etholiadol ar gyfer Gwynedd (c) Cylch Lythyr Eryri (d) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol – mwy o wybodaeth i ddilyn.
15. Taliadau:

Sean's Lawns	sietyn	£80.00	siec 919
Gwyl Bl Ffestiniog	rhodd	100.00	920
J Roberts	archwiliad mewnol	60.00	921
Ffermwyr Ifanc	rhodd	100.00	922
J A Owen	agor bedd	450.00	923

Mari Jones

1. Dim

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 12fed Mawrth 2018 am 7 o'r gloch.